WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad Dilynol o'r Archwiliadau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu – Asesiad o'r Cynnydd – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Blwyddyn archwilio: 2016

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 397A2017

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o’r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi sut y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Cyflawnwyd y gwaith hwn gan Andrew Strong.

# Cynnwys

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) wedi gwneud cynnydd mewn rhai meysydd, ond mae angen iddo wneud rhagor o welliannau, fel cael cymeradwyaeth a chyllid gan y Bwrdd ar gyfer Rhaglen Amlinellol Strategol Gwybodeg 2016-21, gwella cywirdeb gwybodaeth, a phrofi cynlluniau parhad busnes yr is-adrannau.


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Ein canfyddiadau 7

Argymhellion 9

Atodiadau

Atodiad 1 – y cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd ers ein hargymhellion yn 2012 a 2013 11

Atodiad 2 – y cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd ers ein hargymhellion yn 2015 18

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyflawni sawl adolygiad blaenorol sydd wedi ystyried agweddau amrywiol ar Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd). Yn eu plith roedd:

- Ansawdd Data (2012)
- Adfer TGCh ar ôl Trychineb a Pharhad Busnes (yr adolygiad gwreiddiol yn 2009 ac adolygiad dilynol ym mis Ionawr 2012)
- Trefniadau Caldicott ar gyfer gofynion cyfrinachedd gwybodaeth (2013)

2 Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi casgliadau cyffredinol yr adolygiadau hyn.

Arddangosyn 1: casgliadau cyffredinol adolygiadau TGCh blaenorol

| Teitl a dyddiad yr adolygiad | Prif gasgliadau |
|---|---|
| Ansawdd Data (2012) | Mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos safon dda o ansawdd data, fodd bynnag, gallai trefniadau llywodraethu cymhleth fod yn rhwystr posibl i wella. |
| Adfer TGCh ar ôl Trychineb a Pharhad Busnes (2009 a 2012) | Er nad yw wedi rhoi holl argymhellion ein hadroddiad blaenorol yn 2009 ar waith, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran cryfhau ei drefniadau ar gyfer adfer TGCh ar ôl trychineb a pharhad busnes. |
| Trefniadau Caldicott ar gyfer gofynion cyfrinachedd gwybodaeth (2013) | Er ei bod yn ymddangos bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau rheoli a chynllunio addas i ategu gofynion llywodraethu Caldicott a'i fod wedi mynd ati i gynllunio ar sail dealltwriaeth dda o'i gyfrifoldebau o ran cyfrinachedd gwybodaeth, mae angen i'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei drefniadau Caldicott i sicrhau eu bod yn gwbl effeithiol. |

3 Yn 2015, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad dilynol o'i argymhellion TGCh blaenorol, fel y'u nodir yn Arddangosyn 1. Amcan yr adolygiad hwnnw oedd ateb y cwestiwn a ganlyn: 'A yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd o ran ymdrin â'r materion ac argymhellion allweddol y tynnwyd sylw atynt yn ein hadroddiadau blaenorol mewn perthynas â materion TGCh?'

4 Bu inni gyflwyno ein canfyddiadau i'r Bwrdd Iechyd ym mis Mai 2015 a dod i'r casgliad 'bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd mewn rhai meysydd a grybwyllwyd mewn adolygiadau blaenorol, ond [bod] angen gwelliannau pellach fel cymeradwyo'r strategaeth e-Iechyd, gwella cywirdeb gwybodaeth a chynnal profion ar gynlluniau parhad busnes'. Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuwyd yr hyn a ganlyn:

- er bod y trefniadau llywodraethu gwybodaeth a'r polisi ansawdd data a ddiweddarwyd yn darparu'r seiliau ar gyfer gwella ansawdd data, mae heriau i'w cael o hyd o ran gwella cywirdeb gwybodaeth y Bwrdd Iechyd;
- mae gan y Bwrdd Iechyd ddull gweithredu safonol ar gyfer adfer ar ôl trychineb a chynllunio parhad busnes, er bod profion ar gynlluniau parhad busnes yn gyfyngedig a bod lle i gryfhau'r dull gweithredu mewn rhai is-adrannau; ac
- mae trefniadau Caldicott wedi'u datblygu'n dda yn y Bwrdd Iechyd, ond mae lle i wneud rhagor o welliannau drwy gymeradwyo'r diweddariad i strategaeth wybodaeth y Bwrdd Iechyd, cwblhau'r rhaglen datblygu stiwardiaid llywodraethu gwybodaeth, a hysbysu cleifion o'r defnydd a wneir o'u gwybodaeth.

5 Mewn adroddiadau archwilio blaenorol, bu inni wneud yr argymhellion a nodir yn Arddangosion 2, 3 a 4.

Arddangosyn 2: yr argymhellion a wnaed yn 2012

| Argymhellion | |
|---|---|
| **Ansawdd data** | |
| A1 | Sicrhau bod y trefniadau Llywodraethu Gwybodaeth yn effeithlon, yn effeithiol ac yn cynnwys ansawdd data'n briodol ar yr agenda. |

Arddangosyn 3: yr argymhellion a wnaed yn 2013

| Argymhellion | |
|---|---|
| **Adfer TG ar ôl trychineb a chynllunio parhad busnes** | |
| A1 | Profi'r cynlluniau Adfer ar ôl Trychineb i sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl y bwriad a'u bod yn addas at y diben. Dylid cynnal y prawf hwn o leiaf unwaith y flwyddyn. |
| A2 | Cryfhau'r rheolaethau amgylcheddol yn y brif ystafell gyfrifiaduron drwy osod unedau awyru newydd yn lle'r rhai sy'n heneiddio. |
| A3 | Paratoi amserlen o brofion Adfer ar ôl Trychineb ar gyfer y prif systemau ariannol a chlinigol o leiaf. |
| A4 | Adolygu'r llwybr dianc rhag tân presennol sy'n mynd drwy ystafell gyfrifiaduron Mamhilad ac sy'n peri risg TGCh sylweddol. Mae angen cryfhau'r trefniadau drwy, er enghraifft, newid y llwybr dianc. |

| Argymhellion | |
|---|---|
| A5 | Cwblhau a chymeradwyo unrhyw gynlluniau parhad busnes sy'n weddill a sicrhau eu bod yn seiliedig ar dempled safonol y cytunwyd arno ac yn adlewyrchu'r lefel risg briodol. Dylid profi a diweddaru pob cynllun parhad busnes yn rheolaidd. |
| **Adolygiad o drefniadau cyfrinachedd gwybodaeth Caldicott** | |
| A1 | Diweddaru'r trefniadau presennol i roi gwybod i gleifion am y modd y caiff eu gwybodaeth ei defnyddio. |
| A2 | Cynyddu nifer y Stiwardiaid Llywodraethu Gwybodaeth. |

Arddangosyn 4: yr argymhellion a wnaed yn 2015

| Argymhellion | |
|---|---|
| **Ansawdd data** | |
| A1 | Sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cyrraedd y targed hyfforddi drwy e-ddysgu o ran Llywodraethu Gwybodaeth a Chyfrinachedd, sef bod 80 y cant o'r staff wedi'i gwblhau. |
| **Adfer TG ar ôl trychineb a chynllunio parhad busnes** | |
| A2 | Ynghyd â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) a darparwr y System Rheoli Gwybodaeth ar gyfer Labordai (LIMS), dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu a gweithredu cynllun i drosglwyddo o'r hen systemau patholeg Masterlab a Telepath i'r system LIMS genedlaethol sydd wedi'i lleoli yn y Canolfannau Data cenedlaethol. |
| A3 | Rhoi map o gydnerthedd systemau ar gof a chadw er mwyn asesu'r holl systemau TCh lleol a ddefnyddir gan y Bwrdd Iechyd er mwyn mapio trefniadau o ran argaeledd a threfniadau ar gyfer adfer a gwneud copïau wrth gefn. |
| A4 | Rhoi adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth ar y map argaeledd systemau, i roi sicrwydd bod systemau TGCh a gwybodaeth y Bwrdd Iechyd yn dangos cydnerthedd priodol. |
| **Adolygiad o drefniadau cyfrinachedd gwybodaeth Caldicott** | |
| A5 | Sicrhau bod gan y tîm Llywodraethu Gwybodaeth ddigon o adnoddau i gynnal hyfforddiant a rhaglenni addysg cyfrinachedd gwybodaeth, er enghraifft ymgyrchoedd posteri a thaflenni a hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth pwrpasol. |
| A6 | Sefydlu targed priodol ar gyfer y nifer o Stiwardiaid Llywodraethu Gwybodaeth sydd eu hangen i arwain ar gydymffurfio o ran llywodraethu gwybodaeth ar draws y sefydliad. Dylai hyn ystyried yr holl gefnogaeth a hyfforddiant y bydd eu hangen ar Stiwardiaid Llywodraethu Gwybodaeth. Sicrhau bod pob maes gwasanaeth wedi'i gynrychioli'n briodol gan Stiwardiaid Gwybodaeth, er enghraifft, Gwasanaethau Cymunedol. |

| Argymhellion | |
|---|---|
| A7 | Lle bo gan staff fynediad at gyfrifiadur â gyriant cd/dvd mewnol, dylid atgoffa'r aelodau staff hynny o ofynion polisi diogelwch TGCh y Bwrdd Iechyd ac o ganlyniadau torri'r polisi hwn. |
| **Gwybodeg ar gyfer y Bwrdd Iechyd cyfan** | |
| A8 | Sicrhau bod y Bwrdd Gweithredol yn cymeradwyo'r Strategaeth e-Iechyd ar gyfer 2014-2019 a'i bod yn cael digon o adnoddau. |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

6 Fel rhan o Gynllun Archwilio 2016, rydym wedi tracio'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn 2015 yn yr Adolygiad Dilynol Cyfunol o'r Archwiliadau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu. Cychwynnodd yr adolygiad hwn ym mis Ionawr 2017 ac rydym wedi asesu a yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud digon o gynnydd yn sgil canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad gwreiddiol.

7 Wrth gyflawni'r adolygiad cynnydd hwn, rydym wedi:

- adolygu amryw o ddogfennau, gan gynnwys adroddiadau i'r Pwyllgorau Llywodraethu Gwybodaeth; a
- chyf-weld staff y Bwrdd Iechyd i drafod cynnydd, materion cyfredol a heriau'r dyfodol.

8 Ceir crynodeb o'n canfyddiadau yn yr adran nesaf, a cheir mwy o fanylion yn Atodiadau 1 a 2.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd mewn rhai meysydd, ond mae angen iddo wneud rhagor o welliannau, fel cael cymeradwyaeth a chyllid gan y Bwrdd ar gyfer Rhaglen Amlinellol Strategol Gwybodeg 2016-21, gwella cywirdeb gwybodaeth, a phrofi cynlluniau parhad busnes yr is-adrannau

9 Yn gyffredinol, rydym wedi dod i'r casgliad bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd o ran pob argymhelliad, er bod hynt y gwelliannau wedi bod yn araf mewn rhai meysydd. Yn benodol, canfuwyd bod y Bwrdd Iechyd:

- wedi amlinellu ei ddull strategol o wella ei wasanaethau technoleg gwybodaeth a llywodraethu gwybodaeth yn Rhaglen Amlinellol Strategol Gwybodeg (2016-21) ond nad yw hon wedi'i chymeradwyo ac nad oes adnoddau wedi'u clustnodi ar ei chyfer hyd yma;

- wedi gwneud cynnydd o ran paratoi amserlen o brofion adfer TGCh ar ôl trychineb a phrofi cynlluniau adfer yr holl systemau TGCh a reolir yn lleol. Llwyddwyd i adfer y rhan fwyaf o'r systemau TGCh, ond mae chwe system TGCh yn dal i fod heb eu profi oherwydd gwaith datblygu ac uwchraddio;
- wedi bodloni ei darged o ran darparu hyfforddiant cyfrinachedd gwybodaeth i staff yn 2016 ac wedi creu a chynnal ymgyrch posteri a thaflenni i roi gwybod i gleifion am y modd y mae eu gwybodaeth yn cael ei defnyddio a'i phrosesu;
- wedi gwneud cynnydd o ran drafftio a pharatoi Cofrestr Asedau Gwybodaeth i bennu'r holl setiau data a gwybodaeth sydd ar gael yn electronig ac ar bapur, a mapio eu manylion llywodraethu gwybodaeth a chydnerthedd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu gwneud mwy o waith i gwblhau'r gofrestr ac i ddiweddaru ei gynlluniau parhad TGCh lle bo angen;
- wedi cynyddu nifer y stiwardiaid llywodraethu gwybodaeth, gan sicrhau cynrychiolaeth ym mhob maes gwasanaeth, gan gynnwys gwasanaethau cymunedol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi pennu bod angen tua 270 ohonynt ar draws pob maes gwasanaeth ac mae'n dal i weithio ym maes gofal heb ei drefnu i ddatblygu deugain o stiwardiaid ychwanegol;
- wedi cyflwyno nifer o fentrau i wella ansawdd data drwy ddefnyddio technoleg ddigidol yn well, defnyddio ffurflenni electronig i gasglu data a chynnal rhaglen hyfforddi i godi ymwybyddiaeth staff clinigol. Canfu Archwilio Mewnol 'sicrwydd rhesymol' o ran cydymffurfiaeth y Bwrdd Iechyd â pholisïau a gweithdrefnau ansawdd a dilysu data, ond ceir nifer o heriau o ran lleihau'r ddibyniaeth ar gofnodion papur;
- wedi llunio a phrofi cynlluniau parhad busnes rhai o'i is-adrannau, ond ceir heriau o hyd o ran diweddaru'r cynlluniau a chyflymu hynt y cynnydd. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd wneud mwy o waith i adeiladu ar y cynnydd a wnaed, a mynd ati i lunio cynlluniau parhad busnes ar gyfer pob is-adran a phob maes, a'u profi'n rheolaidd.

10 Yn gryno, nodir statws y cynnydd a wnaed o ran pob un o'r argymhellion blaenorol yn Arddangosyn 5.

Arddangosyn 5: statws yr argymhellion blaenorol

| Cyfanswm yr argymhellion | Wedi'u rhoi ar waith | Cynnydd da | Cynnydd cyfyngedig | Wedi'u disodli |
|---|---|---|---|---|
| 16 | 7 | 6 | 3 | - |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

# Argymhellion

11 Mae Arddangosyn 6 yn nodi'r argymhellion nad ydynt wedi'u cyflawni. Dylai'r Bwrdd Iechyd barhau i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn. Mae'r atodiadau i'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cynnydd a wnaed o ran yr 16 argymhelliad blaenorol, ac mae'n rhoi sgoriau ar gyfer y cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd.

Arddangosyn 6: argymhellion heb eu cyflawni

| Argymhellion heb eu cyflawni hyd yma | |
|---|---|
| **Ansawdd data (2012)** | |
| A1 | Sicrhau bod y trefniadau Llywodraethu Gwybodaeth yn effeithlon, yn effeithiol ac yn cynnwys ansawdd data'n briodol ar yr agenda. |
| **Adfer TG ar ôl trychineb a chynllunio parhad busnes** | |
| A1 | Profi'r cynlluniau Adfer ar ôl Trychineb i sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl y bwriad a'u bod yn addas at y diben. Dylid cynnal y prawf hwn o leiaf unwaith y flwyddyn. |
| A5 | Cwblhau a chymeradwyo unrhyw gynlluniau parhad busnes sy'n weddill a sicrhau eu bod yn seiliedig ar dempled safonol y cytunwyd arno ac yn adlewyrchu'r lefel risg briodol. Dylid profi a diweddaru pob cynllun parhad busnes yn rheolaidd. |
| **Adfer TG ar ôl trychineb a chynllunio parhad busnes (Mai 2015)** | |
| A1 | Ynghyd â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) a darparwr y System Rheoli Gwybodaeth ar gyfer Labordai (LIMS), dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu a gweithredu cynllun i drosglwyddo o'r hen systemau patholeg Masterlab a Telepath i'r system LIMS genedlaethol sydd wedi'i lleoli yn y Canolfannau Data cenedlaethol. |
| A2 | Rhoi map o gydnerthedd systemau ar gof a chadw er mwyn asesu'r holl systemau TGCh lleol a ddefnyddir gan y Bwrdd Iechyd er mwyn mapio trefniadau o ran argaeledd a threfniadau ar gyfer adfer a gwneud copïau wrth gefn. |
| A3 | Rhoi adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth ar y map argaeledd systemau, i roi sicrwydd bod systemau TGCh a gwybodaeth y Bwrdd Iechyd yn dangos cydnerthedd priodol. |

| Argymhellion heb eu cyflawni hyd yma | |
|---|---|
| **Adolygiad o drefniadau cyfrinachedd gwybodaeth Caldicott (Mai 2015)** | |
| A1 | Sicrhau bod gan y tîm Llywodraethu Gwybodaeth ddigon o adnoddau i gynnal hyfforddiant a rhaglenni addysg cyfrinachedd gwybodaeth, er enghraifft ymgyrchoedd posteri a thaflenni a hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth pwrpasol. |
| A2 | Sefydlu targed priodol ar gyfer y nifer o Stiwardiaid Llywodraethu Gwybodaeth sydd eu hangen i arwain ar gydymffurfio o ran llywodraethu gwybodaeth ar draws y sefydliad. Dylai hyn ystyried yr holl gefnogaeth a hyfforddiant y bydd eu hangen ar Stiwardiaid Llywodraethu Gwybodaeth. Sicrhau bod pob maes gwasanaeth wedi'i gynrychioli'n briodol gan Stiwardiaid Gwybodaeth, er enghraifft, Gwasanaethau Cymunedol. |
| **Strategaeth Gwybodeg (Mai 2015)** | |
| A1 | Sicrhau bod y Bwrdd Gweithredol yn cymeradwyo'r Strategaeth e-Iechyd ar gyfer 2014-2019 a'i bod yn cael digon o adnoddau. |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

# Atodiad 1

## Y cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd ers ein hargymhellion yn 2012 a 2013

Arddangosyn 7: asesiad o'r cynnydd

| Argymhelliad | Statws | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|
| **Adolygiad o Ansawdd Data (2012)** | | |
| A1 Sicrhau bod y trefniadau Llywodraethu Gwybodaeth yn effeithlon, yn effeithiol ac yn cynnwys ansawdd data'n briodol ar yr agenda. | Cynnydd cyfyngedig | Mae'r Bwrdd Iechyd yn dibynnu'n helaeth ar i staff clinigol gofnodi gwybodaeth yn gywir, ond nid yw ansawdd a chodau'r data bob amser yn bodloni'r targed cywirdeb o 100%. Mae'r timau Gwasanaethau Gwybodaeth a Llywodraethu Gwybodaeth yn darparu cymorth a chyfarwyddyd i'r clinigwyr i helpu i wella cywirdeb gwybodaeth y Bwrdd Iechyd ac i gynnal ansawdd y data ar lefel clinigwyr.<br>Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a'r Grŵp Datblygu Gwybodaeth yn parhau i gadw llygad ar ansawdd data.<br>Canfu adolygiad Archwilio Mewnol ym mis Medi 2016 'sicrwydd rhesymol' o ran cydymffurfiaeth y Bwrdd Iechyd â pholisïau a gweithdrefnau ansawdd data. Nododd Archwilio Mewnol fod prosesau ansawdd a dilysu data'r Bwrdd Iechyd yn dibynnu'n helaeth ar gofnodion papur a phennodd nifer o feysydd lle gallai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno gwelliannau.<br>Mae Adran Gwasanaethau Gwybodaeth y Bwrdd Iechyd yn cwblhau gwiriadau ansawdd data dyddiol ac wythnosol ar sail gwybodaeth o'r wardiau cyn iddynt gael eu bwydo i System Gweinyddu Cleifion Myrddin. Mae'r Adran Gwasanaethau Gwybodaeth yn trosglwyddo gwallau data posibl, er enghraifft, dim rhif GIG neu rif annilys, codau meddygon ymgynghorol annilys neu achosion lle nad yw'r amser rhyddhau wedi'i gofnodi, i'r tîm Ansawdd Data yn yr Adran Cofnodion Iechyd er mwyn iddo ymchwilio iddynt a'u cywiro.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cynnal rhaglen o archwiliadau Llywodraethu Gwybodaeth i bennu ansawdd data. Er enghraifft, cynhaliodd adolygiad o ansawdd data atgyfeiriadau'r llwybr cleifion ar gyfer gofal wedi'i drefnu yn y gwasanaethau acíwt. Cwblhawyd yr adolygiad hwnnw ym mis Mehefin 2017 ac mae adolygiad |

| Argymhelliad | Statws | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|
| | | tebyg yn mynd rhagddo ym maes cleifion allanol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cwblhau'r adolygiad o ansawdd data a chyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth ym mis Medi 2017.<br>Drwy'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a'r Cyfarwyddwr Meddygol, mae'r Bwrdd Iechyd yn pwyso a mesur ffyrdd strategol o ddefnyddio technolegau galluogi a chyfathrebu digidol i helpu i wella ansawdd data a chywirdeb cofnodion cleifion, er enghraifft, pennau digidol ac e-ffurflenni. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi rhaglen ddatblygu ar waith er mwyn defnyddio e-ffurflenni lleol mewn nifer o feysydd i ategu ansawdd data drwy gasglu gwybodaeth, rhannu gwybodaeth, a chynnal safonau data, er enghraifft, o ran yr Asesiad Nyrsio Rhewmatoleg.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu i'r e-ffurflenni leihau'r gwaith o brosesu cofnodion papur, cyflymu'r broses o gasglu data a lleihau'r gwallau wrth drawsgrifio data.<br>Ym mis Ionawr 2017, sefydlodd y Bwrdd Iechyd grŵp gorchwyl a gorffen ar Ansawdd Data i adolygu'r rhaglen addysg ac ymwybyddiaeth o ansawdd data, y fframweithiau sy'n sicrhau bod staff yn atebol ac yn gyfrifol am ansawdd data, a'r defnydd o dechnoleg i helpu i wella ansawdd data.<br>Nododd y Bwrdd Iechyd y prif heriau a'r prif feysydd i'w gwella o ran ansawdd data yn Adroddiad Llywodraethu Gwybodaeth Blynyddol 2016-2017, sef:<br>• sicrhau bod perchnogaeth, atebolrwydd a chyfrifoldeb personol dros gywirdeb data yn ennill eu plwyf ymhlith clinigwyr i gynyddu eu hymgysylltiad â materion ansawdd data;<br>• gwella ansawdd data drwy bennu safonau, dilysu a dylunio systemau i safoni eitemau data, tablau data a setiau data;<br>• targedu addysg a hyfforddiant yn gyson drwy'r rhaglen stiwardiaid gwybodaeth ar gyfer y staff hynny sy'n cofnodi data yn systemau gwybodaeth y Bwrdd Iechyd;<br>• gwella'r lefelau codio clinigol drwy ddarparu adnoddau codio ychwanegol ac adolygu strwythur y swyddogaethau codio clinigol. |

| Argymhelliad | Statws | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|
| **Adfer TG ar ôl trychineb a chynllunio parhad busnes (2013)** | | |
| A1 Profi'r cynlluniau Adfer ar ôl Trychineb i sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl y bwriad a'u bod yn addas at y diben. Dylid cynnal y prawf hwn o leiaf unwaith y flwyddyn. | Cynnydd da | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi trefnu rhaglen o brofion adfer TGCh ar ôl trychineb ar gyfer y systemau a reolir yn lleol, y seilwaith a'r ystafelloedd cyfrifiaduron. Mae'n profi'r trefniadau i adfer rhai systemau TGCh ar wahân i weddill y systemau TGCh oherwydd y cyfyngiadau o ran amserlennu a chapasiti. Mae wedi cwblhau'r profion parhad busnes drwy ddod i gytundeb â pherchnogion y meysydd gwasanaeth, ac mae'n aml wedi gwneud hyn tu allan i oriau er mwyn lleihau'r effaith ar glinigau.<br>Ym mis Ebrill 2016, rhoddodd y Bwrdd Iechyd adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth ynghylch y cynnydd a wnaed i gwblhau'r profion parhad busnes a drefnwyd. Roedd wedi cwblhau'r profion adfer ar y rhan fwyaf o'r systemau TGCh lleol a bennwyd cyn mis Ebrill 2016, gan brofi 44 o systemau TGCh yn ystod 2016. Dim ond tair system TGCh (Gweithfan Glinigol, Cofnodion Iechyd Digidol a System Gwybodaeth Radioleg) sy'n dal heb eu profi. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi trefnu profion parhad busnes ar gyfer y tair system TGCh hyn ond nid yw wedi'u cwblhau hyd yma gan fod gwaith datblygu ac uwchraddio'n mynd rhagddo.<br>Er bod y rhan fwyaf o'r profion parhad busnes TGCh wedi llwyddo i adfer y systemau TGCh, bu i dair o'r systemau fethu (Medsecs, Endoscopy, Symphony). Rhoddwyd datrysiad ar waith ar bob un o'r systemau hyn ac mae profion dilynol wedi'u trefnu. Nid ydynt wedi'u hailbrofi hyd yma oherwydd prinder adnoddau.<br>Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn cynnal prawf adfer TGCh ar ôl trychineb llawn blynyddol ar yr holl systemau TGCh. Yn hytrach, mae'n ceisio profi'r systemau a'r seilwaith TGCh yn unigol. Yn ôl y rheolwyr, mae'n anodd cynllunio profion adfer TGCh ar ôl trychineb oherwydd bod angen i lawer o systemau TGCh critigol y Bwrdd Iechyd fod ar gael am resymau gweithredol.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd nifer o gamau i liniaru'r risg, yn ychwanegol at brofi'r trefniadau adfer, ac i ddarparu datrysiad amgen i brofi'r trefniadau a'r cynlluniau wrth gefn. Mae holl systemau TGCh critigol y Bwrdd Iechyd, ac eithrio'r systemau patholeg Telepath a Materlab, yn cael eu dyblygu o'r brif ganolfan ddata, Mamhilad, i Ysbyty Aneurin Bevan. Mae'r dyblygiad rhwydwaith hwn yn digwydd sawl gwaith y dydd. Gwneir copi wrth gefn o'r systemau TGCh llai critigol nad ydynt |

| Argymhelliad | Statws | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|
| | | yn cael eu dyblygu ar ddyfeisiau Rhwydwaith Ardal Storio (SAN), ac mae'r dyfeisiau hynny'n cael eu copïo mewn amser real i Rwydwaith Ardal Storio arall oddi ar y safle yn Ysbyty Aneurin Bevan. |
| A2 Cryfhau'r rheolaethau amgylcheddol yn y brif ystafell gyfrifiaduron drwy osod unedau awyru newydd yn lle'r rhai sy'n heneiddio. | Wedi'i roi ar waith | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau'r rheolaethau amgylcheddol ym mhrif ystafell gyfrifiaduron Mamhilad. Roedd wedi gosod pedair uned awyru yn y ganolfan ddata erbyn diwedd 2015. Mae'r unedau hyn wedi disodli hen unedau awyru ac maent yn sicrhau bod yr ystafell yn fwy diogel. |
| A3 Paratoi amserlen o brofion Adfer ar ôl Trychineb sy'n berthnasol i'r prif systemau ariannol a chlinigol o leiaf. | Wedi'i roi ar waith | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi paratoi rhestr o'r systemau clinigol ac ariannol lleol, y seilwaith a'r ystafelloedd cyfrifiaduron y dylid eu profi fel rhan o'r broses o brofi systemau TG a reolir yn lleol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi 44 o systemau TGCh y mae angen eu profi o ran parhad busnes. |
| A4 Adolygu'r llwybr dianc rhag tân presennol sy'n mynd drwy ystafell gyfrifiaduron Mamhilad ac sy'n peri risg TGCh sylweddol. Mae angen cryfhau'r trefniadau drwy, er enghraifft, newid y llwybr dianc. | Wedi'i roi ar waith | Mae gallu'r Bwrdd Iechyd i symud y llwybr dianc rhag tân, sy'n mynd drwy ganolfan ddata Mamhilad, yn gyfyngedig oherwydd cyngor Swyddog Tân y Bwrdd Iechyd. Mae'r Swyddog Tân wedi asesu'r llwybrau dianc rhag tân yn Nhŷ Mamhilad ac, er bod llwybr dianc amgen wedi'i asesu a'i gyflwyno tu allan i goridor y ganolfan ddata, nid yw'r llwybr o fewn y ganolfan ddata wedi newid.<br>I liniaru'r sefyllfa, mae'r Bwrdd Iechyd wedi atgyfnerthu'r rheolaethau sydd ar waith yn y ganolfan ddata. Ceir camerâu teledu cylch cyfyng wrth y drysau i mewn i ystafell canolfan ddata Mamhilad ac ohoni, ac mae mynediad i bob un o reseli'r gweinydd yn cael ei reoli ag allwedd. Mae'r Adran Gwybodeg wedi asesu risg y trefniadau hyn ac mae'n tybio bod y rheolaethau sydd ar waith yn lliniaru'r risg y gallai rhywun gael mynediad i'r ganolfan ddata heb ganiatâd, a hynny i lefel dderbyniol o ystyried cyfyngiadau cynllun adeilad Mamhilad. |

| Argymhelliad | Statws | Crynodeb o’r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|
| A5 Cwblhau a chymeradwyo unrhyw gynlluniau parhad busnes sy’n weddill a sicrhau eu bod yn seiliedig ar dempled safonol y cytunwyd arno ac yn adlewyrchu’r lefel risg briodol. Dylid profi a diweddaru pob cynllun parhad busnes yn rheolaidd. | Cynnydd da | Mae’r Bwrdd Iechyd wedi amlinellu cyfrifoldebau ac atebolrwydd yr is-adrannau dros gwblhau cynlluniau parhad busnes yn glir yn ei bolisi Rheoli Parhad Busnes. I safoni’r cynlluniau, rhaid defnyddio templed arfaethedig a cherdyn camau gweithredu enghreifftiol wrth baratoi’r cynlluniau parhad busnes.<br>Mae’r Bwrdd Iechyd yn bwriadu sicrhau bod cynlluniau parhad busnes yr is-adrannau’n cael eu diweddaru drwy gyfarfodydd Llywodraethu Gwybodaeth Is-adrannol a thrwy’r rhaglen Stiwardiaid Llywodraethu Gwybodaeth.<br>Mae’r Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd da o ran datblygu cynlluniau parhad busnes, megis yn y Tîm Teuluoedd a Therapïau. Fodd bynnag, mae gwaith yn dal i fynd rhagddo yn is-adrannau’r Bwrdd Iechyd i ddatblygu ac i ddiweddaru’r holl gynlluniau parhad busnes gofynnol, er enghraifft, mae heriau’n parhau o ran datblygu’r Cynlluniau Parhad Busnes ar gyfer Gofal wedi’i Drefnu a Gofal heb ei Drefnu gan fod y meysydd hyn yn fawr ac yn gymhleth.<br>Yn unol â pholisi Rheoli Parhad Busnes y Bwrdd Iechyd, mae’n ofynnol i bob cynllun parhad busnes gael ei adolygu a’i asesu o safbwynt risg o leiaf unwaith y flwyddyn, neu’n gynharach os yw’r trefniadau wedi newid yn sylweddol. Er bod rhai o gynlluniau parhad busnes neu gynlluniau argyfwng yr is-adrannau wedi’u profi o bryd i’w gilydd, er enghraifft, yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys, mae gwaith yn dal i fynd rhagddo i brofi holl gynlluniau parhad busnes y Bwrdd Iechyd. |

| Argymhelliad | Statws | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|
| **Adolygiad o drefniadau cyfrinachedd gwybodaeth Caldicott (2013)** | | |
| A1 Diweddaru'r trefniadau presennol i roi gwybod i gleifion am y modd y caiff eu gwybodaeth ei defnyddio. | Wedi'i roi ar waith | Ddiwedd 2015, bu i reolwr Llywodraethu Gwybodaeth y Bwrdd Iechyd greu a chynnal ymgyrch posteri a thaflenni, gan gynnwys hysbysiadau i roi gwybod i gleifion am y modd y mae eu gwybodaeth yn cael ei defnyddio a'i phrosesu.<br>Mae'r posteri a'r taflenni 'Eich gwybodaeth, Eich hawliau', yn amlinellu sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio gwybodaeth cleifion i ddarparu gofal, i gynllunio gwasanaethau, i fonitro ansawdd ac i hyfforddi staff, a sut y mae'n rhannu gwybodaeth ag asiantaethau iechyd a lles sy'n bartneriaid gyda chaniatâd y cleifion.<br>Bu i'r Bwrdd Iechyd arddangos y posteri a rhannu'r taflenni'n eang yn ei adeiladau ddechrau 2016, gan gynnwys y prif ysbytai (clinigau a wardiau), lleoliadau gofal eilaidd a gwasanaethau cymunedol. |
| A2 Cynyddu nifer y Stiwardiaid Llywodraethu Gwybodaeth. | Wedi'i roi ar waith | Yn ei hunanasesiad o'r modd y mae'n cydymffurfio â gofynion Caldicott, cafodd y Bwrdd Iechyd sgôr o 88%. Mae hyn yn dangos ei fod yn gwella'n barhaus yn y maes hwn. Ym mis Ebrill 2016, bu i dîm gweithredol y Bwrdd Iechyd gymeradwyo hunanasesiad Caldicott 2015-16.<br>Yn 2016-17, mae gwaith y Bwrdd Iechyd i wella o ran gofynion Caldicott yn cael ei ategu gan gamau i ehangu'r rhaglen Stiwardiaid Llywodraethu Gwybodaeth ac i sicrhau bod cyfrifoldeb ac atebolrwydd personol o ran cyfrinachedd gwybodaeth yn parhau i ennill eu plwyf ymhlith holl staff y Bwrdd Iechyd.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu ei raglen i greu rhwydwaith o Stiwardiaid Llywodraethu Gwybodaeth i'w helpu i gydymffurfio'n well â gofynion Caldicott ac i roi cyngor i feysydd gwasanaeth am lywodraethu gwybodaeth. Mae rôl y Stiwardiaid Llywodraethu Gwybodaeth yn cael ei thargedu at reolwyr sy'n galluogi staff y Bwrdd Iechyd i gyflawni eu swyddi gan roi sylw priodol i'r gofynion cyfrinachedd gwybodaeth. Er nad yw rôl y Stiwardiaid Llywodraethu Gwybodaeth yn rôl ffurfiol yn y Bwrdd Iechyd, ystyrir ei bod yn 'rôl oruchwylio' o fewn swyddi rheoli presennol.<br>Mae nifer y Stiwardiaid Llywodraethu Gwybodaeth wedi cynyddu o 60 yn gynnar yn 2013 i dros 230 erbyn dechrau 2017. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi hyfforddiant |

| Argymhelliad | Statws | Crynodeb o’r cynnydd a wnaed |
| --- | --- | --- |
| | | penodol ar gyfer y rôl oruchwylio hon i’r Stiwardiaid Llywodraethu Gwybodaeth. Mae’r Bwrdd Iechyd yn sylweddoli bod y broses o ddatblygu’r rhwydwaith o Stiwardiaid Llywodraethu Gwybodaeth yn un hir ac, ar hyn o bryd, er bod cynrychiolaeth ar gael ym mhob maes gwasanaeth, mae angen mynd ati i ddatblygu mwy o Stiwardiaid Llywodraethu Gwybodaeth i gyflawni’r rôl hon.<br>Nid yw’r Bwrdd Iechyd wedi pennu targed ffurfiol ar gyfer nifer y Stiwardiaid Gwybodaeth sydd eu hangen arno i gefnogi’r holl staff meddygol a gweinyddol yn briodol. Mae’r Bwrdd Iechyd yn deall y bydd angen i nifer y Stiwardiaid Llywodraethu Gwybodaeth fod yn realistig ac yn gynaliadwy o ystyried y gofynion cefnogi a hyfforddi. |

# Atodiad 2

## Y cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd ers ein hargymhellion yn 2015

Arddangosyn 8: asesiad o'r cynnydd a wnaed

| Argymhelliad | Statws | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|
| **Strategaeth Gwybodeg (Mai 2015)** | | |
| A1 Sicrhau bod y Bwrdd Gweithredol yn cymeradwyo'r Strategaeth e-Iechyd ar gyfer 2014- 2019 a'i bod yn cael digon o adnoddau. | Cynnydd cyfyngedig | Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i bob bwrdd iechyd lleol baratoi Rhaglen Amlinellol Strategol Gwybodeg 2016 – 2021. Mae dyddiadau adolygu Strategaethau Llywodraethau Gwybodaeth a Strategaeth TGCh y Bwrdd Iechyd wedi dod i ben.<br>Yn ystod ail hanner 2016, mae'r Bwrdd Iechyd wedi drafftio Rhaglen Amlinellol Strategol Gwybodeg a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae'r Rhaglen Amlinellol Strategol yn nodi sut y mae'r gwasanaeth yn bwriadu 'hwyluso'r ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol a gwelliannau o ansawdd uchel drwy gefnogi a galluogi datblygiadau strategol lleol ym maes dadansoddi, rheoli gwybodaeth a thechnolegau cyfathrebu yn unol â'r agenda genedlaethol'. Mae'r Rhaglen Amlinellol Strategol Gwybodeg yn amlinellu'r buddsoddiad cyfalaf a refeniw lleol arfaethedig a'r gofynion o ran y gweithlu er mwyn darparu'r seilwaith, y systemau, y capasiti a'r gweithlu y bydd eu hangen i gyflawni amcanion strategol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y Strategaeth Dyfodol Clinigol ac Ysbyty Athrofaol newydd y Grange.<br>Gofynnodd y Bwrdd Iechyd i'r Bwrdd Gweithredol gymeradwyo'r Rhaglen Amlinellol Strategol Gwybodeg yn gynnar yn 2017 ac mae'n bwriadu ei chyflwyno i'r Bwrdd Iechyd er mwyn i'r Aelodau Annibynnol ei herio a chraffu arni. Yn y cyfamser, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gofyn i'r Bwrdd Rheoli Gwybodeg Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru am fwy o eglurder o ran lefelau'r cyllid cyfalaf cenedlaethol y bydd eu hangen i roi'r strategaeth gwybodeg genedlaethol ar waith cyn bod modd iddo gymeradwyo'r Rhaglen Amlinellol Strategol leol. |

| Argymhelliad | Statws | Crynodeb o’r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|
| **Ansawdd Data (Mai 2015)** | | |
| A2 Sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cyrraedd y targed hyfforddi drwy e-ddysgu o ran Llywodraethu Gwybodaeth a Chyfrinachedd, sef bod 80 y cant o’r staff wedi’i gwblhau. | Wedi’i roi ar waith | Mae’r Bwrdd Iechyd wedi mynd tu hwnt i’w darged hyfforddiant e-ddysgu yn 2016. Roedd Adroddiad Gwybodeg Blynyddol 2015-16 a gyflwynwyd i’r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth yn dangos bod 81% o’r staff wedi cwblhau’r hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth a Chyfrinachedd erbyn mis Ebrill 2016. Mae’n ofynnol i bob un o aelodau staff y Bwrdd Iechyd sy’n debygol o drin a thrafod gwybodaeth gyfrinachol gwblhau’r hyfforddiant e-ddysgu Llywodraethu Gwybodaeth a Chyfrinachedd bob dwy flynedd. |
| **Adfer TG ar ôl trychineb a chynllunio parhad busnes (Mai 2015)** | | |
| A1 Ynghyd â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) a darparwr y System Rheoli Gwybodaeth ar gyfer Labordai (LIMS), dylai’r Bwrdd Iechyd ddatblygu a gweithredu cynllun i drosglwyddo o’r hen systemau patholeg Masterlab a Telepath i’r system LIMS genedlaethol sydd wedi’i lleoli yn y Canolfannau Data cenedlaethol. | Cynnydd da | Mae’r Bwrdd Iechyd wedi rhoi’r System Rheoli Gwybodaeth ar gyfer Labordai (LIMS) a luniwyd gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ar waith ar gyfer y gwyddorau gwaed a microbioleg. Nid yw elfennau’r rhaglen LIMS genedlaethol sy’n ymwneud â histopatholeg, corffdy a thrallwyso gwaed ar gael i’r byrddau iechyd eu defnyddio oherwydd bod problemau wedi dod i’r amlwg wrth brofi’r feddalwedd. Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru’n bwriadu symud y dyddiad gweithredu ar gyfer y byrddau iechyd i fis Gorffennaf 2017.<br>Yn ogystal â’r modiwlau LIMS cenedlaethol y mae eisoes wedi’u rhoi ar waith ar gyfer y gwasanaethau gweithredol, mae’r Bwrdd Iechyd yn dal i ddefnyddio ei systemau patholeg lleol etifeddol, sef y system Telepath yn Ysbyty Brenhinol Gwent a’r system Masterlab yn Ysbyty Neville Hall. Mae’r systemau Masterlab a Telepath wedi bod yn rhedeg ar seilwaith sy’n heneiddio.<br>Cafodd caledwedd gweinydd Masterlab ei ddisodli yn 2016. Mae trafodaethau pellach yn mynd rhagddynt ym maes patholeg ar lefel genedlaethol ynghylch yr opsiynau technegol i ddiweddaru caledwedd y mae’n anodd cael gafael arno ar gyfer Telepath. Mae’r Bwrdd Rheoli Gwybodeg Cenedlaethol wedi trafod y risg hon ac mae’r Bwrdd Iechyd wedi gofyn am ddyfynbrisiau gan CSC (cyflenwr Telepath) ar gyfer diweddariad technegol newydd. Mae’r Bwrdd Iechyd wedi gofyn i Wasanaeth Gwybodeg y GIG gytuno i barhau i ddarparu cyllid ar ôl 1 Ebrill 2017 er mwyn parhau i redeg y ddwy system TGCh etifeddol ym maes patholeg. |

| Argymhelliad | Statws | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|
| A2 Rhoi map o gydnerthedd systemau ar gof a chadw er mwyn asesu'r holl systemau TGCh lleol a ddefnyddir gan y Bwrdd Iechyd er mwyn mapio trefniadau o ran argaeledd a threfniadau ar gyfer adfer a gwneud copïau wrth gefn. | Cynnydd da | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi drafftio a llunio Cofrestr Asedau'r Systemau Gwybodaeth. Mae'n cynnwys yr holl setiau data lleol a gedwir yn electronig ac ar bapur, yn ogystal â'r systemau a ddefnyddir. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cydnabod bod hwn yn arfer da i sicrhau bod gwybodaeth yn ddiogel ar draws y Bwrdd Iechyd ac i roi'r sicrwydd angenrheidiol o ran gwybodaeth. Mae'n sicrhau bod modd cyflawni asesiadau risg gwybodaeth, yn hwyluso camau i gydgysylltu data, ac yn rhoi gwybod i'r Bwrdd Iechyd am unrhyw systemau newydd sy'n cael eu caffael ac unrhyw setiau data newydd sy'n cael eu cyflwyno.<br>Mae'r Gofrestr Asedau'n mapio manylion pwysig ynghylch llywodraethu gwybodaeth a chydnerthedd yn y setiau data electronig a phapur. Mae'r manylion hyn yn cynnwys perchennog yr ased, ei lleoliad, sut y mae'r wybodaeth yn cael ei storio, a'r cyfyngiadau mynediad. Gellir defnyddio'r Gofrestr Asedau ochr yn ochr â chynlluniau parhad TGCh presennol y Bwrdd Iechyd sy'n cynnwys gweithdrefnau i wneud copïau wrth gefn o'r systemau TGCh critigol ac anghritigol a'u hadfer, a'r trefniadau i wneud copïau wrth gefn o'r holl systemau data TGCh, a'u dyblygu, oddi ar y safle bob dydd. Gan ddefnyddio'r Gofrestr Asedau, gall y Bwrdd Iechyd fynd ati'n fwy effeithiol i fapio'r trefniadau o ran argaeledd, adfer a gwneud copïau wrth gefn, a'u diweddaru pan fydd newidiadau technegol yn digwydd.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n cwblhau ac yn diweddaru'r wybodaeth a geir yn y Gofrestr Asedau. Mae hefyd yn diweddaru ei gynlluniau parhad TGCh yn ôl y gofyn ar sail yr wybodaeth a geir yn y Gofrestr Asedau a'r newidiadau diweddar i'r seilwaith a ddefnyddir i wneud copïau wrth gefn o'r systemau TGCh a'u dyblygu. |
| A3 Rhoi adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth ar y map argaeledd systemau, i roi sicrwydd bod systemau TGCh a gwybodaeth y Bwrdd Iechyd yn dangos cydnerthedd priodol. | Cynnydd da | Ym mis Ebrill 2017, rhoddodd y Bwrdd Iechyd adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth ynghylch y cynnydd a wnaed i lenwi'r Gofrestr Asedau Gwybodaeth. Bydd y gofrestr hon yn helpu i roi sicrwydd i'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth fod setiau data gwybodaeth y Bwrdd Iechyd yn cael eu nodi'n briodol, eu bod yn destun asesiad risg, a'u bod yn gydnerth. Bu i'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth nodi'r cynnydd a wnaed i lenwi'r gofrestr, ynghyd â'r ffaith bod angen gwneud rhagor o waith i werthuso ac i gwblhau'r wybodaeth a gedwir. Mae'r Bwrdd Iechyd |

| Argymhelliad | Statws | Crynodeb o’r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|
| | | yn bwriadu rhoi adroddiad i’r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth ym mis Medi 2017 am y Gofrestr Asedau gyflawn. |
| **Adolygiad o drefniadau cyfrinachedd gwybodaeth Caldicott (Mai 2015)** | | |
| A1 Sicrhau bod gan y tîm Llywodraethu Gwybodaeth ddigon o adnoddau i gynnal hyfforddiant a rhaglenni addysg cyfrinachedd gwybodaeth, er enghraifft ymgyrchoedd posteri a thaflenni a hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth pwrpasol. | Cynnydd cyfyngedig | Mae’r Bwrdd Iechyd wedi drafftio Rhaglen Amlinellol Strategol i ddisodli’r Strategaeth Llywodraethu Gwybodaeth. Mae Rhaglen Amlinellol Strategol ddrafft y Bwrdd Iechyd yn amlinellu ei ddull strategol o fynd i’r afael â llywodraethu gwybodaeth a’r rhaglen o waith gwella y bydd angen ymgymryd â hi, gan gynnwys:<br>• parhau i ddefnyddio’r rhaglen stiwardiaid llywodraethu gwybodaeth;<br>• adolygu’r rhaglen hyfforddi llywodraethu gwybodaeth;<br>• cyflwyno’r pecyn adnoddau Llywodraethu Gwybodaeth yn lle dull monitro cydymffurfiaeth Caldicott;<br>• sefydlu proses i roi gofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol newydd ar waith erbyn mis Mai 2018.<br>Mae’r Rhaglen Amlinellol Strategol yn aros i gael ei chymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol ac mae’r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cadarnhau’r adnoddau a fydd ar gael ar gyfer Rhaglen Gwella Llywodraethu Gwybodaeth 2017. Nid yw’r Bwrdd Iechyd wedi darparu unrhyw adnoddau ychwanegol i’r tîm Llywodraethu Gwybodaeth i gefnogi gweithgareddau 2016, ond mae wedi adolygu ac ailbennu swyddogaethau a chyfrifoldebau er mwyn cefnogi’r hyfforddiant a’r arweiniad o ran llywodraethu gwybodaeth yn well. Mae’r tîm Llywodraethu Gwybodaeth wedi gofyn am adnoddau ychwanegol gan y Bwrdd Iechyd ar gyfer secondiad dwy flynedd i roi gofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ar waith. |

| Argymhelliad | | Statws | Crynodeb o’r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A2 | Sefydlu targed priodol ar gyfer y nifer o Stiwardiaid Llywodraethu Gwybodaeth sydd eu hangen i arwain ar gydymffurfio o ran llywodraethu gwybodaeth ar draws y sefydliad. Dylai hyn ystyried yr holl gefnogaeth a hyfforddiant y bydd eu hangen ar Stiwardiaid Llywodraethu Gwybodaeth. Sicrhau bod pob maes gwasanaeth wedi’i gynrychioli’n briodol gan Stiwardiaid Gwybodaeth, er enghraifft, Gwasanaethau Cymunedol. | Cynnydd da | Mae’r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da ac mae wedi pennu tua 230 o Stiwardiaid Llywodraethu Gwybodaeth i arwain ac i gefnogi’r camau i gydymffurfio â’r gofynion llywodraethu gwybodaeth ar hyd a lled y sefydliad. Yn 2016, gwnaeth y Bwrdd Iechyd gynnydd o ran cyflwyno Stiwardiaid Llywodraethu Gwybodaeth yn y Gwasanaethau Cymunedol. Erbyn hyn, ceir cynrychiolaeth ym mhob maes gwasanaeth, ond mae’r Bwrdd Iechyd yn bwriadu gwneud rhagor o waith yn 2017 i ddatblygu tua 40 o Stiwardiaid Llywodraethau Gwybodaeth ychwanegol ym maes Gofal heb ei Drefnu. Mae’r Bwrdd Iechyd yn amcangyfrif mai tua 270 o Stiwardiaid Gwybodaeth yw’r targed cynaliadwy uchaf i gefnogi’r rhaglen llywodraethu gwybodaeth gyfredol. |
| A3 | Lle bo gan staff fynediad at gyfrifiadur â gyriant cd/dvd mewnol, dylid atgoffa’r aelodau staff hynny o ofynion polisi diogelwch TG y Bwrdd Iechyd ac o ganlyniadau torri’r polisi hwn. | Wedi’i roi ar waith | Yn ystod yr hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth a Chyfrinachedd, mae’r Bwrdd Iechyd wedi atgoffa staff a chanddynt fynediad at gyfrifiadur â gyriant CD/DVD mewnol ysgrifenadwy o ofynion y polisi diogelwch TGCh a chanlyniadau mynd yn groes i’r polisi hwn.<br>Mae’r Bwrdd Iechyd wedi analluogi pob gyriant CD/DVD nad oes ei angen ar staff i gwblhau eu gwaith. Pan fydd yn caffael gliniaduron newydd, mae’n caffael rhai heb yriant CD/DVD. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru